Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

The Academy *of* Medical Sciences

# Ffurflen Gais: Cronfa Sbarduno Gofal Canser

Nod y Gronfa hon yw meithrin cydweithio a darparu cyllid sbarduno hollbwysig i helpu sefydliadau i hyrwyddo syniadau arloesol er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau i gleifion yng Nghymru sydd wedi'u heffeithio gan Ganser. Gall timau prosiect neu adrannau o fewn sefydliadau cofrestredig yn y DU wneud cais am arian o'r gronfa hyd at £10,000.

I gael manylion llawn y meini prawf cymhwysedd, y cwmpas a'r dyddiadau cau, a gwybodaeth berthnasol arall, edrychwch ar y ddogfen ganllawiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyllido hon. Dylai ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais hon yn llawn a'i chyflwyno ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol gofynnol i helo@hwbgbcymru.com erbyn y dyddiad cau, sef 28/11/2025.

**Llenwch bob adran o'r ffurflen. Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod. Rhaid i ffurflenni cais sydd wedi'u llenwi beidio â bod yn fwy na 10 tudalen.**

**Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu fasnachol sensitif yn y deunydd a gyflwynwch i ni.**

**Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu â thrydydd partïon at ddibenion asesu eich cais yn erbyn y cwmpas a'r meini prawf cymhwysedd.**

| **Adran 1: Manylion y sefydliad** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am y Cwmni Arweiniol** | |
| Enw'r Sefydliad | |
| Sector y Sefydliad | |
| Cyfeiriad Llawn y Cwmni | |
| Rhif y Cwmni | |
| Byddwn yn defnyddio'r manylion a ddarperir i gynnal archwiliadau ar y cwmni, gan gynnwys Adroddiad Credit Safe a manylion Tŷ'r Cwmnïau. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd angen i chi roi tystiolaeth i ni o gyfrif banc yn y DU yn enw'r cwmni ymgeisio y gellir talu'r arian iddo. | |
| Maint y Cwmni | |
| I gael arweiniad ar faint y cwmni, ewch i wefan Tŷ'r Cwmnïau | |
| Manylion unrhyw riant gwmni neu gwmnïau cysylltiedig | |
| Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau Cymhorthdal y DU, mae angen i ni sicrhau eich bod wedi datgan pob cymhorthdal gan yr un endid cyfreithiol (grŵp cwmni) y mae eich cwmni'n perthyn iddo yn Adran 9 y ffurflen gais hon. | |
| A fydd eich gweithgareddau prosiect arfaethedig yn effeithio ar fasnach ar draws ffin Gogledd Iwerddon/Undeb Ewropeaidd? | Bydd/Na fydd |
| Rhowch ymateb bydd/na fydd a gwybodaeth i gefnogi eich ateb. | |

| **Adran 2: Ymgeisydd Arweiniol** | |
|---|---|
| Sylwer bod rhaid i'r ymgeisydd arweiniol a enwir gael cymeradwyaeth y sefydliad i gyflwyno'r cais. Bydd yn ofynnol i'r Ymgeisydd Arweiniol drefnu llofnodydd sefydliadol awdurdodedig ar gyfer dogfennau sy'n rhwymo mewn cyfraith ar ran y cwmni os bydd yn llwyddiannus. | |
| Enw'r Ymgeisydd Arweiniol | |
| Swydd | |
| Rhif Ffôn | Cyfeiriad E-bost |
| | |

| **Adran 3: Manylion y gweithgaredd** | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y Gweithgaredd | | | |
| Disgrifiwch yn fyr y gweithgaredd rydych chi'n bwriadu ymgymryd ag ef. Defnyddiwch ddim mwy na 200 gair. | | | |
| Dyddiad Cychwyn | | Dyddiad Gorffen | |
| Trosolwg o'r Gweithgaredd | | | |
| Amcanion y Gweithgaredd | | | |
| Dylech gynnwys prif amcanion y cynllun gweithgaredd. Dylai amcanion fod yn Benodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol a Synhwyrol (SMART). Uchafswm o 5 amcan. | | | |

| **Adran 4: Cwmpas** | |
|---|---|
| Disgrifiwch sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â chwmpas y rhaglen gyllido. | |
| Efallai yr hoffech egluro eich cymhelliant am y prosiect; sut y bydd allbynnau eich prosiect yn cefnogi'r cwmpas. Efallai yr hoffech atodi rhagor o fanylion mewn PDF ategol. | |

| **Adran 5: Dull Gweithredu a Chyflawni** | |
|---|---|
| Dylai'r adran hon amlinellu eich cynllun ynghylch beth, pwy a sut rydych chi'n bwriadu cyflawni'r gweithgaredd ar y cyd. Pa ddulliau fyddwch chi'n eu defnyddio a beth fydd y ffocws? Gallwch gynnwys cynifer o becynnau gwaith ag y bo angen – awgrymir rhwng 2 a 6 o becynnau gwaith. Efallai yr hoffech atodi rhagor o fanylion mewn PDF ategol. | |
| Beth – beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni ar gyfer y gweithgaredd hwn<br><br>Pwy – beth yw'r cyfraniadau a'r mewnbynnau sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgaredd<br><br>Sut – beth yw'r cyfraniadau a'r mewnbynnau sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgaredd | |
| **Amserlen:** Pryd - Dylech gynnwys yr holl gerrig milltir perthnasol ar gyfer y gweithgaredd gyda dyddiadau cwblhau targedau. | |
| | |
| **Allbynnau:** Dylech anelu at gofnodi'r holl allbynnau rydych yn bwriadu eu cyflawni yma. Ystyriwch unrhyw allbynnau DPA y dylid eu cofnodi yma. | |
| | |
| **Risgiau:** Beth yw'r prif risgiau i'r gweithgaredd hwn? | |
| Disgrifiwch y prif risgiau i'r prosiect a sut bydd y rhain yn cael eu lliniaru. | |
| | |

| **Adran 6: Partneriaid Gweithgaredd** |
|---|
| Rhestrwch enw'r sefydliad partner, enw'r prif gyswllt, ei swydd a'i gyfeiriad e-bost |
| |

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

The Academy of Medical Sciences

| Cyfraniadau Partner |
|---|
| Rhestrwch fanylion unrhyw gyfraniadau ariannol neu anariannol ('ymarferol') yr ydych chi neu'r partneriaid yn eu darparu yn ystod y gweithgaredd. |

**Cyfraniadau Ariannol**

| Partner | Manylion | Derbynnydd |
|---|---|---|
| | | |

**Cyfraniadau nad ydynt yn ariannol ('ymarferol')**

| Partner | Manylion | Derbynnydd |
|---|---|---|
| | | |

## Adran 7: Costau

Rhowch amcangyfrif o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r prosiect. Dim ond costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau o fewn y cwmpas sy'n gymwys i gael cyllid grant. **Dyfynbrisiau:** Mae angen un dyfynbris ar gyfer pob eitem sy'n werth dros £1,999, gyda dau ddyfynbris ar gyfer pob eitem sy'n werth dros £5,000. Dylid atodi copi PDF o unrhyw ddyfynbrisiau. Os nad ydych wedi dewis y dyfynbris rhataf, rhaid i chi roi cyfiawnhad. Nid oes angen dyfynbrisiau ar gyfer costau staff mewnol, ond rhaid i chi ddarparu cyfradd ddyddiol yn y disgrifiad yn ogystal â chyfanswm cost. Efallai y byddwn yn gwirio unrhyw gyfraddau dyddiol ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn cynrychioli gwerth am arian.

| Disgrifiad o'r Eitem | Cyflenwr | Cost (£) | Nodiadau ychwanegol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| Cyfanswm y costau | | | |
| Esboniwch sut mae'r prosiect yn cynrychioli gwerth am arian. | | | |
| | | | |

## Adran 8: Statws Cymhorthdal

Os ydych chi'n sefydliad nad yw'n rhan o'r sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cymhorthdal y DU, llenwch y datganiad Cymhorthdal canlynol.

Datganwch y canlynol yn llawn ar y ffurflen isod ar gyfer grŵp cwmni'r ymgeisydd (endid unigol):

- Unrhyw Gymhorthdal yn y DU a ddyfarnwyd ar sail yr eithriad Isafswm Cymorth Ariannol (neu ragflaenydd cyfatebol) yn ystod y tair blynedd diwethaf; ac

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

The Academy *of* Medical Sciences

- Unrhyw Gymhorthdal arall a ddyfarnwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae rhagor o wybodaeth am gymorthdaliadau ar gael yn y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau a Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

| Enw'r dyfarniad | Enw'r cynllun cymhorthdal | Dyddiad y dyfarniad | Swm y dyfarniad (£) | Corff dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | CYFANSWM | | |

Sylwer mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw datgan yn llawn yr holl gymorthdaliadau a ddyfarnwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Os ydych yn ansicr a ydych wedi derbyn cymhorthdal ai peidio, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

**Adran 9: Datganiad**

Rwy'n datgan:

- Rwy'n cael fy awdurdodi ar ran yr ymgeiswyr Arweiniol a'r sefydliadau Partner a enwir yn Adran 1 y ffurflen hon i lenwi a chyflwyno'r cais hwn ar eu rhan;
- Hyd y gwn i, mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir adeg ei chyflwyno;
- Mae'r cwmnïau sy'n gwneud y cais yn hyfyw (h.y. yn gweithredu fel busnes hyfyw) ar y dyddiad llofnodi isod;
- Nid yw'r cwmnïau sy'n ymgeisio nac unigolion a enwir yn destun unrhyw ymgyfreitha perthnasol ar hyn o bryd;
- Mae'r holl drwyddedau ac yswiriant yn eu lle er mwyn i'r prosiect allu bwrw ymlaen, gan gynnwys yswiriant indemniad proffesiynol;
- Rwy'n fodlon i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a phartneriaid cyflenwi gynnwys gwybodaeth am y cwmni, unrhyw grant a ddyfarnwyd ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall nad yw'n gyfrinachol, fel cyhoeddiadau ar wefannau ac astudiaethau achos;
- Os bydd grant yn cael ei ddyfarnu i'r cwmni a enwir yn Adran 1, rwy'n fodlon i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ddarparu manylion sy'n ofynnol i gydymffurfio â rheoliadau'r DU ar dryloywder ar gyfer cymorthdaliadau i drydydd parti, ac i'r trydydd parti gyhoeddi'r data gofynnol yn y parth cyhoeddus.

Wrth lofnodi'r datganiad hwn, rwyf yn cytuno i'r holl wybodaeth a ddarperir gennyf mewn perthynas â'r cais hwn gael ei defnyddio gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i bartneriaid i asesu'r cais hwn mewn perthynas â chwmpas a meini prawf cymhwysedd y rhaglen gyllido.

Os bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru angen tystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn, rwy'n cytuno i ddarparu hyn yn brydlon.

Rwy'n rhoi caniatâd i chi gasglu'r data rwyf wedi'u rhoi yn y cais hwn ac yn cytuno i'r data gael eu prosesu a'u defnyddio yn unol ag Erthygl 5 GDPR 2018 yr UK a hysbysiad Preifatrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â sut mae eich data yn cael ei gadw neu ei ddefnyddio, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r sefydliad yn hello@lshubwales.com.

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Swydd | |
| Dyddiad | |
| Llofnod | |
| Sylwch y gellir gludo llofnod electronig i'r ffurflen. | |
| Enw | |

| | |
|---|---|
| | |
| Swydd | |
| Dyddiad | |
| Llofnod | |
| Dim ond os yw strwythur eich sefydliad yn golygu bod hyn yn angenrheidiol y bydd angen ail lofnod. | |

**Rhestr wirio wrth wneud cais**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi pob adran o'r ffurflen gais a'r dogfennau sydd ynghlwm i gefnogi eich ymateb fel y nodir isod.

| Adran | Dogfen | Gofynnol/argymhellir |
|---|---|---|
| 4 a 5 | Tystiolaeth PDF i gefnogi ei fod yn cyd-fynd â'r cwmpas, a'r Dull Gweithredu a Chyflawni. | **Argymhellir** |
| 7 | Dyfynbrisiau i gefnogi costau | Angenrheidiol |

Sylwch, os nad ydych wedi atodi'r holl ddogfennau gofynnol, mae'n bosibl y bydd eich cais yn cael ei wrthod neu ei ohirio.

**---DIWEDD Y FFURFLEN---**